

mae gennych hawl i ddweud eich barn

Prosiect Eiriolaeth Casnewydd i Blant a Phobl Ifanc

Gwybodaeth i Weithwyr Proffesiynol

Rhadffôn Pobl Ifanc:

0800 234 6408

Promoting Children's Rights

TROS GYNNAL

Hawliau Plant

Charity No. 1059878 Rhif Elusen

PWY YDYM NI

Mae Prosiect Eiriolaeth Casnewydd yn rhan o Tros Gynnal, y sefydliad hawliau plant. Mae'r prosiect yn cynnig gwasanaeth eiriolaeth a chyfranogi i blant a phobl ifanc mewn gofal neu sy'n gadael gofal, plant yn mynychu cynadleddau amddiffyn plant, plant a phobl ifanc sy'n derbyn gwasanaeth gan Gwasanaethau Cymdeithasol, plant âg anableddau, a phlant sydd yn 11 oed neu'n hyn sydd wedi eu heithrio o'r ysgol ac sydd eisiau apelio.

Rydym hefyd yn darparu Gwasanaeth Ymwelydd Annibynnol i Blant mewn Gofal sydd heb gyswllt â'u teuluoedd yn y 12 mis blaenorol.

SUT YDYM YN GWEITHIO

Mae'r prosiect yn gweithio yn unol â Safonau Eiriolaeth Cenedlaethol ar gyfer Darparu Gwasanaethau Eiriolaeth Plant (2003). Rydym yn annibynnol o'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac yn gweithio i bobl ifanc yn unig drwy wrando ar yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud, eu hysbysu o'u hawliau a'u cynorthwyo i ddatrys yr hyn yr hoffent ei gyflawni. Mae ein gwasanaeth yn gyfrinachol ac ni ddatgelir gwybodaeth heb ganiatâd y bobl ifanc oni bai i ni ddod yn ymwybodol o rywbeth a allai achosi niwed sylweddol i blentyn neu berson ifanc. Mewn achosion felly byddwn yn gweithio gyda hwy ac yn eu hannog i ddatgelu'r wybodaeth honno eu hunain i'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

BETH A WNAWN

Mae Prosiect Eiriolaeth Casnewydd yn gweithio i sicrhau fod pobl ifanc yn gallu cyfranogi o fewn gwneud penderfyniadau ac y clywir eu lleisiau. Byddwn yn cyflawni hyn trwy broses o:

EIRIOLAETH

Gallwn helpu pobl ifanc i ddatrys materion mewn sawl ffordd drwy:

- ddarparu gwybodaeth am eu hawliau
- godi materion ar eu rhan gyda phobl sy'n gwneud penderfyniadau
- cynorthwyo pobl ifanc i leisio barn mewn cyfarfodydd
- eu helpu i wneud cwynion ffurfiol/anffurfiol
- eu helpu i gael mynediad i gyngor a chynrychiolaeth cyfreithiol.

YMWELWYR ANNIBYNNOL

- Cynghori
- Cyfeillio
- Cynnal

A thrwy hynny darparu cyswllt i'r plentyn neu berson ifanc sydd yn gymwys ar gyfer y gwasanaeth sydd y tu allan i'r system statudol.

DEFNYDDIO'R GWASANAETH

- Gall plant a phobl ifanc gysylltu â ni'n uniongyrchol ar ein rhif rhadffôn.
- Byddwn hefyd yn derbyn cyfeiriadau a gaiff ei gwneud ar ran pobl ifanc gyda'u caniatâd.

MAE GWYBODAETH AR GYFER POBL IFANC AR GAEL O:

Tros Gynnal
Prosiect Eiriolaeth Casnewydd
Tŷ Derwen
Ffordd yr Eglwys
Casnewydd NP19 7EJ

Gwefan: www.trosgynnal.org.uk

Rhadffôn Pobl Ifanc

0800 234 6408